

Cynllun Iaith Gymraeg

A baratowyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993

Y Gymraeg

Y tu mewn

Rhagair	1
Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud	2
Cynllunio a darparu gwasanaethau	3
Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg	4
Ein hwyneb cyhoeddus	6
Gweithredu'r cynllun	8
Cysylltu a chymorth	11

Cynllun Iaith Gymraeg



Paratowyd y Cynllun yn unol ag adran
21(3) y Ddeddf ac fe'i gymeradwywyd
gan Gomisiynydd y Gymraeg ar
02/05/2025.

Mae'n disodli cynllun iaith Gymraeg
blaenorol NS&I, a gymeradwywyd ar
27/07/2007.



**Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner**



Cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth am
unrhyw agwedd ar y cynllun,
cysylltwch â'r canlynol:

Cyfarwyddwr Manwerthu

NS&I
Riverside House
2a Southwark Bridge Rd
Llundain
SE1 9HA

Rhagair

O dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru baratoi cynllun sy'n amlinellu sut y bydd yn darparu'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg.

Mae NS&I wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gydradd wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r cynllun hwn yn amlinellu sut y bydd NS&I yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Yn y cynllun hwn, mae'r term 'y cyhoedd' yn golygu unigolion, unigolion cyfreithiol a chyrff corfforedig. Mae'n cynnwys y cyhoedd i gyd, neu ran o'r cyhoedd, yn ogystal ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r term yn cynnwys sefydliadau gwirfoddol ac elusennau. Mae cyfarwyddwyr a phobl eraill sy'n cynrychioli cwmnïau cyfyngedig yn dod o fewn ystyr y term 'y cyhoedd', hefyd. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys unigolion sy'n gweithredu mewn rhinwedd sy'n cynrychioli'r Goron, y Llywodraeth neu'r Wladwriaeth. O ganlyniad, nid yw unigolion sy'n cyflawni swyddogaethau swyddogol o natur gyhoeddus, er eu bod yn unigolion cyfreithiol, yn dod o fewn ystyr y term 'y cyhoedd' pan fyddant yn cyflawni'r swyddogaethau swyddogol hynny.

Mae rhagor o wybodaeth am gwmpas a diben cynlluniau iaith Gymraeg ar gael yng nghanllawiau Comisiynydd y Gymraeg (comisiynyddygymraeg.cymru).

Y cynllun

- mae'n amlinellu mesurau i hyrwyddo ymwybyddiaeth o wasanaethau a ddarperir gan NS&I
- mae'n amlinellu mesurau i wella hygyrchedd i ystod eang o wasanaethau
- rhoddir cyhoeddusrwydd iddo ymhlith staff NS&I, partneriaid a'r cyhoedd
- mae Pwyllgor Gweithredol NS&I wedi cytuno arno ac yn ei gefnogi'n llwyr

Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

Mae NS&I (National Savings and Investments) yn asiantaeth weithredol Canghellor y Trysorlys. Gyda dros 25 miliwn o gwsmeriaid, ni yw un o'r darparwyr cynhyrchion cynilo mwyaf i fuddsoddwyr a chynilwyr personol yn y Deyrnas Unedig.

Ein cylch gwaith cyffredinol yw helpu i leihau cost benthyca gan y Llywodraeth i drethdalwyr. Gyda hyn mewn cof, ein hamcan strategol unigol yw darparu cyllid manwerthu cost-effeithiol i'r Llywodraeth o gymharu â chodi arian ar y farchnad gyfanwerthu.

Pan fydd pobl yn meddwl am NS&I, rydym eisiau iddynt ein cysylltu â'n gwerthoedd:

Yn ddiogel, yn ysbrydoledig, yn syml ac yn galonogol o ddynol.

O dan y cynllun iaith Gymraeg hwn, bwriadwn adlewyrchu'r gwerthoedd hyn wrth ddelio â'r cyhoedd yng Nghymru.

Cymorth sefydliadol NS&I

Ar y dyddiad y daeth y cynllun hwn i rym, nid oedd gan NS&I unrhyw swyddfeydd yng Nghymru. Rydym yn cyflogi oddeutu 250 o staff ar draws safleoedd yn Llundain, Lytham, Durham, a Glasgow sy'n rheoli pob agwedd ar y busnes.

Ers 1999, mae swyddogaethau gweithredol NS&I wedi cael eu rhoi ar gontract allanol i'n partneriaid gweithredol. Mae'r swyddogaethau gweithredol hyn yn cael eu gweinyddu mewn nifer o safleoedd.

Mae gweithgareddau NS&I, naill ai'n uniongyrchol neu drwy ein partneriaid, yn cynnwys:

- agor cyfrifon newydd ar gyfer cwsmeriaid a derbyn buddsoddiadau;
- trefnu i ad-dalu buddsoddiadau cwsmeriaid, naill ai'n uniongyrchol i'w banc neu gymdeithas adeiladu neu drwy siec yn y post;
- cynnal cofnodion cwsmeriaid ar gyfrifiaduron;
- ateb ymholiadau cwsmeriaid dros y ffôn, trwy e-bost a thrwy lythyr;
- cyhoeddi taliadau llog a chyfriflenni fel y bo'n briodol i gynhyrchion penodol;
- cyhoeddi gwobrau o ganlyniad i gystadlaethau tynnu rhifau Bondiau Premiwm

Er nad yw NS&I yn cael ei reoleiddio na'i awdurdodi gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA), mae Trysorlys Ei Fawrhydi yn disgwyl i ni gydymffurfio â gofynion priodol yr FCA neu adlewyrchu'r safonau.

Cynllunio a darparu gwasanaethau

Polisiau a Mentrau

Bydd polisiau, mentrau a gwasanaethau NS&I yn gyson â'r cynllun hwn. Byddant yn cefnogi defnydd o'r Gymraeg a byddant, pryd bynnag y bo'n bosibl, yn helpu'r cyhoedd yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg yn rhan o'u bywydau beunyddiol.

Pan fyddwn yn cyfrannu at ddatblygu neu gyflawni polisiau, mentrau, gwasanaethau neu ddeddfwriaeth newydd a arweinir gan sefydliadau eraill, byddwn yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n gyson â'r cynllun hwn.

Mae NS&I yn gyfrifol am osod polisi a ffurfio a chynnal prosiectau. Mae'n rhaid dilyn proses Adolygu'r Effaith ar Gwsmeriaid wrth greu neu ddiwygio cynhyrchion a gwasanaethau presennol. Mae'r broses hon yn cynnwys darpariaeth benodol i ystyried Deddf yr Iaith Gymraeg.

Mae Pwyllgor Gweithredol NS&I yn penderfynu ar brosiectau mawr a'u monitro, ac maen nhw wedi rhoi eu cefnogaeth lwyr i'r cynllun hwn.

Darparu Gwasanaethau

Mae'r cynllun hwn yn amlinellu ein dull o ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r mesurau'n berthnasol i'n safleoedd ledled y Deyrnas Unedig a thrafodion ar ein rhan gan ein partneriaid.

Ym mhob un o'r prif safleoedd gweithredol, mae Atos wedi darparu Swyddog Cyswllt y Gymraeg i fod yn gyfrifol am gynnal gwasanaethau o dan y cynllun hwn.

Er mwyn i NS&I ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel, rydym yn cyflogi cwmni cyfieithu proffesiynol sy'n cynghori ar ein holl faterion cyfieithu i'r Gymraeg, gan gynnwys deunyddiau argraffedig, gohebiaeth â chwsmeriaid a chymorth teleffoni.

Safon y Gwasanaeth yn Gymraeg

Bydd y targedau darparu gwasanaeth yn Gymraeg yr un fath â'r rhai hynny ar gyfer trafodion Saesneg, fel y cyhoeddwyd yn ein Hadroddiad Blynyddol. Mae fersiwn Saesneg o'r Adroddiad Blynyddol ar gael ar-lein yn nsandi-corporate.com/performance/annual-reports.

Bydd safonau darparu gwasanaethau ar draws ein partneriaid yn cael eu monitro a'u hadolygu ni waeth am ddewis iaith y cwsmer.

Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

Cyfathrebu Ysgrifenedig

Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn cyhoeddi ymateb yn Gymraeg (os oes angen ymateb).

Ceisiwn ymateb o fewn yr un raddfa amser ag ar gyfer ymateb i llythyrau a ysgrifennwyd yn Saesneg, a gallwn gyflymu'r broses hon pan fydd angen.

Os bydd cwsmeriaid wedi dewis cyfathrebu yn Gymraeg, bydd hyn wedi'i gofnodi ar ein systemau. Yna, byddwn yn gohebu â'r cwsmeriaid hynny yn Gymraeg.

Bydd y cwsmeriaid hyn hefyd yn derbyn ein llythyrau safonol yn Gymraeg i'w helpu i weithredu eu daliadau gydag NS&I.

Bydd yr holl ohebiaeth Gymraeg a gyhoeddwn ar ffurf copi caled yn cael ei llofnodi.

Pan fydd amgaeadau'n cael eu hanfon gyda llythyrau Cymraeg, bydd y rheiny'n Gymraeg hefyd, pan fyddant ar gael.

Cyfathrebu ar y Ffôn

Oherwydd nad yw'n busnes a'n gweithrediadau wedi'u lleoli yng Nghymru, nid yw'n rhesymol ymarferol cynnig gwasanaeth ffôn Cymraeg sy'n cyfateb i'n gwasanaeth Saesneg. Fodd bynnag, mae NS&I yn darparu gwasanaeth ymholiadau ffôn Cymraeg a gefnogir gan ein hasiantaeth gyfieithu, a phan fydd wedi'i amlygu, rhoddir gwybod i'r cwsmer sut i barhau â'r sgwrs yn Gymraeg.

Mae'r gwasanaeth ar gael o 9am tan 5pm o ddydd Llun i ddydd Iau, ac o 9am tan 4.30pm ar ddydd Gwener (heblaw am wyliau banc). Mae ein hasiantaeth allanol wedi cael cyfarwyddyd ar sut i ddelio â'n cwsmeriaid yn ystod galwad.

Er y credwn fod y datrysiad hwn yn ddigonol o ystyried nifer bresennol y galwadau, bwriadwn fonitro nifer y galwadau ac ystyried pa fesurau ychwanegol a allai fod yn berthnasol yng ngoleuni'r galw.

Bancio dros y Ffôn

Mae angen i ni sicrhau bod arian ein cwsmeriaid yn ddiogel bob amser. Ni all ein gwasanaeth llinell ymholiadau trydydd parti gefnogi mynediad at ddata cwsmeriaid a'r gallu i wneud ymholiadau ynglŷn â chyfrifon a chyflawni trafodion.

Mae hyn yn golygu na allwn brosesu unrhyw werthiannau dros y ffôn na chynorthwyo cwsmer sy'n dymuno rheoli ei gynilion gan ddefnyddio gwasanaeth ffôn yn Gymraeg.

Pan na allwn ddarparu'r un gwasanaeth yn Gymraeg ag yn Saesneg, byddwn yn amlinellu ffyrdd amgen o gael at ein cynhyrchion, a gefnogir gan ein Gwasanaeth Iaith Gymraeg. Manylir ar y rhain yn nhaflenni nodweddion allweddol cynhyrchion unigol NS&I.

Cyfarfodydd Cyhoeddus

Nid yw NS&I yn cynnal cyfarfodydd na digwyddiadau swyddogol tebyg sy'n agored i'r cyhoedd.

Cyfarfodydd eraill â'r cyhoedd yng Nghymru

Mae ein lleoliad yn golygu na fyddai'n ymarferol i ni gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r cyhoedd trwy'r iaith Gymraeg.

Trafodion eraill â'r cyhoedd yng Nghymru

Bydd NS&I yn darparu ar gyfer y Gymraeg wrth gynnal arolygon cwsmeriaid yng Nghymru. Bydd cwsmeriaid yn gallu ymateb i arolygon post yn eu dewis iaith.

Ein hwyneb cyhoeddus

Hunaniaeth gorfforaethol

Mae NS&I wedi ymrwymo i gyflwyno hunaniaeth gorfforaethol briodol yng Nghymru. Mae gennym logo cwmni ac mae hwn wedi'i gynnwys ar yr holl ddeunydd argraffedig a chyfryngau digidol Cymraeg a Saesneg.

Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a hysbysebu

Mae NS&I wedi ymrwymo i gynnal ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd ar lefel genedlaethol, yn hytrach nag yn rhanbarthol neu'n lleol.

Pe byddai NS&I yn cynnal ymgyrchoedd rhanbarthol neu leol yng Nghymru, byddem yn sicrhau bod unrhyw hysbysebu yn Gymraeg.

Anaml y bydd NS&I yn arddangos mewn digwyddiadau yng Nghymru, ac felly nid yw'n cynhyrchu stondinau arddangos dwyieithog.

Yn yr un modd, nid yw NS&I yn arddangos llenyddiaeth ategol yn ddwyieithog. Yn hytrach, mae'n cyfeirio at wefan NS&I.

Rydym yn hyrwyddo ar ein gwefannau yn hytrach na hysbysebu, a hynny bob amser ar gyfer cynulleidfa genedlaethol. Fodd bynnag, pe byddem yn hysbysebu ar ein gwefan, byddai hyn yn cael ei wneud yn Gymraeg a'i gynnal ar wefan Gymraeg NS&I (nsandi.com/hafan)

Cyhoeddiadau

Bydd deunydd a gyhoeddwyd gan NS&I ac a fwriedir ar gyfer cwsmeriaid yng Nghymru yn cael ei gyhoeddi ar wahân mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg.

Mae fersiynau Cymraeg a Saesneg o'n llyfrynau cynhyrchion ar gael ar gais, naill ai trwy ysgrifennu atom neu ein ffonio'n uniongyrchol.

Dyma gadarnhad o'r mathau o gategorïau cyhoeddiadau:

Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân

Rydym yn darparu dogfennau ôl-werthu yn Gymraeg ar gais, neu'n rhagweithiol os yw cwsmer eisoes wedi gofyn am gael gohebiaeth yn Gymraeg. Gall y rhain gynnwys:

- Nodweddion allweddol
- Blychau crynhoi
- Cyfriflenni
- Gohebiaeth ynghylch aeddfedrwydd tymor sefydlog

O ganlyniad i'r galw isel a'r costau sylweddol sy'n gysylltiedig, nid yw'n rhesymol ymarferol i ni gynhyrchu'r canlynol fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân:

- Gwarantau gwobrau ac ad-daliadau
- Adroddiadau Blyneddol

Bydd NS&I yn monitro'r galw am yr eitemau hyn ac yn asesu pan fydd yn briodol cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

Bydd yr uchod yn berthnasol i ddeunydd sydd ar gael ar ein gwefan, hefyd.

Gwefannau

Wrth ddylunio gwefannau newydd, neu ailddatblygu ein gwefannau presennol, byddwn yn ystyried canllawiau Comisiynydd y Gymraeg ar ddylunio gwefan.

Ystyrir bod gwefan NS&I yn gyfrwng allweddol i gyfathrebu â chwsmeriaid. Byddwn yn parhau i ddarparu fersiwn Gymraeg o'r wefan a'i chryfhau fel llwyfan i gynyddu ymwybyddiaeth o'n gwasanaethau sydd ar gael i gwsmeriaid yng Nghymru.

Mae ein gwefan ar gael trwy'r cyfeiriad canlynol: nsandi.com/hafan

O ganlyniad i hyblygrwydd y wefan, ystyriwn ei bod yn offeryn allweddol i hybu hygyrchedd i wybodaeth am ein busnes yn Gymraeg a Saesneg. Pan nad yw'n ymarferol darparu gwasanaeth cyfwerth cynhwysfawr, o ganlyniad i faterion hygyrchedd, bwriadwn gynnig dewis amgen trwy ein gwefan.

Ar hyn o bryd, nid yw'n rhesymol ymarferol atgynhyrchu ein gwefannau a'n gwasanaeth bancio ar-lein yn Gymraeg. Fodd bynnag, lle yr ystyriwn ei bod yn briodol, byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth sylfaenol yn Gymraeg ynghyd â chymorth a chynnwys sy'n gysylltiedig â chynhyrchion. Byddwn yn monitro datblygiadau parhaus ar y safle Saesneg ac yn ceisio defnyddio'r hyn a ddysgwyd i wneud datblygiadau ychwanegol ar y safle Cymraeg. Gall cwsmeriaid ddewis lawrlwytho ffurflen gais Gymraeg i'w hargraffu a'i phostio, neu ddefnyddio sianeli gwerthu eraill NS&I.

Byddwn yn monitro gweithgarwch ar y wefan Gymraeg ac yn ystyried datblygu gwasanaethau bancio ar-lein yn Gymraeg yng ngoleuni lefel y galw.

Er nad yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth, bydd NS&I yn sicrhau bod y canlynol o leiaf yn ymddangos ar y wefan Gymraeg:

- Cynllun Iaith Gymraeg cymeradwy
- Sut i gysylltu â ni
- Ffurflen adborth gan gwsmeriaid
- Gwybodaeth am wirio gwobrau Bondiau Premiwm
- Gwybodaeth am gynhyrchion, gan gynnwys cyfraddau llog a ffurflenni cais i'w hargraffu a'u postio
- Diweddariadau i wasanaethau Cymraeg NS&I

Ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiedig

Mae NS&I wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth cyfatebol i'r cyhoedd yng Nghymru a fydd yn cynnwys fersiynau Cymraeg o'r holl ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiedig. Mae ffurflenni cais am gynnyrch (Cymraeg a/neu Saesneg) ar gael trwy ein gwefan ac mae'r holl ffurflenni eraill ar gael ar gais (ceisiwn ddarparu fersiynau Cymraeg a Saesneg o ffurflenni y gofynnwyd amdanynt o fewn yr un raddfa amser).

Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff

Nid oes gan NS&I swyddfa yng Nghymru, felly nid yw'n recriwtio'n benodol yng Nghymru na thrwy gyhoeddiadau Cymraeg.

Datganiadau i'r wasg a chyswllt â'r cyfryngau

Bydd datganiadau i'r wasg ar gyfer y wasg a chyfryngau darlledu yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg pan fydd terfynau amser yn caniatáu – neu yn unol â dewis iaith y sefydliad cyfryngau neu'r cyhoeddiad sy'n eu derbyn.

Gweithredu'r cynllun

Staff

Nid oes gennym swyddfeydd yng Nghymru. Fodd bynnag, os bydd yn briodol, byddwn yn ceisio gwybodaeth am sgiliau Cymraeg ymgeiswyr am swyddi ac aelodau staff presennol.

Recriwtio, hyfforddiant ieithyddol

Yn rhan o'n broses fonitro ar gyfer y cynllun, byddwn yn ailwerthuso'r gofyniad am siaradwyr Cymraeg yn seiliedig ar y galw gan gwsmeriaid. O ran unrhyw swyddi sy'n gofyn am gysylltiad helaeth a rheolaidd â'r cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn ystyried p'un a ddylai rhuglder yn y Gymraeg fod yn sgil dymunol neu hanfodol – a bydd hyn yn cael ei ddatgan mewn cymwyseddau a hysbysebion swyddi.

Ymhlith y staff presennol, bydd siaradwyr Cymraeg yn cael eu hamlygu trwy fonitro'r gronfa ddata sgiliau Adnoddau Dynol. Rydym wedi ymrwymo i amlygu'r sgiliau hyn a gwneud y defnydd gorau ohonynt.

Bydd NS&I yn cynnal archwiliadau rheolaidd o sgiliau staff ac yn gofyn i Atos gynnal archwiliadau tebyg yn rheolaidd, hefyd.

Os ystyrir bod y galw'n ddigonol, bydd gweithdrefnau recriwtio a hyfforddi sy'n gyson â'r cynllun yn cael eu cyflwyno. Ar hyn o bryd, nid oes angen rhoi rhaglen ar waith i gyflwyno rolau'n benodol ar gyfer siaradwyr Cymraeg na hyfforddi pobl sydd mewn rolau cysylltiedig i ddysgu Cymraeg. Fodd bynnag, pe byddai staff yn gofyn am gael hyfforddiant yn Gymraeg, byddem yn ymrwymo i'w cynorthwyo os ystyrir bod y galw am y sgiliau hyn yn fuddiol.

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Byddwn yn rhoi sylw i'r angen i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg, a gweithredu yn unol â'r cynllun hwn, wrth i ni ddatblygu, dylunio a phrynu cynhyrchion a gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Ni ddisgwylir y bydd angen gwneud newidiadau i systemau TG presennol i weithredu'r mesurau a gynhwysir yn y cynllun hwn.

Bydd systemau TG newydd i gefnogi darparu deunydd i'r cyhoedd yng Nghymru yn ystyried darpariaethau'r cynllun.

Gweithio mewn partneriaeth

Pan fyddwn yn arweinydd strategol ac ariannol mewn partneriaeth, byddwn yn sicrhau bod unrhyw agweddau ar wasanaeth cyhoeddus yn cydymffurfio â'r cynllun hwn.

Pan fyddwn yn ymuno â phartneriaeth a arweinir gan sefydliad arall, bydd ein cyfraniad at y bartneriaeth yn cydymffurfio â'r cynllun hwn a byddwn yn annog y partneriaid eraill i gydymffurfio.

Pan fyddwn yn bartner mewn consortiwm, byddwn yn annog y consortiwm i gydymffurfio â'r cynllun hwn. Pan fyddwn yn gweithredu yn enw'r consortiwm, byddwn yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn.

Mae'r uchod yn cyfeirio'n unig at bartneriaethau sy'n delio â gwasanaethau sydd ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru.

Trefniadau mewnol

Mae'r ymrwymïadau a'r trefniadau a amlinellir yn y cynllun wedi cael eu cymeradwyo gan Bwyllgor Gweithredol NS&I a byddant yn cael eu gweithredu gydag awdurdod llawn y sefydliad.

Mae NS&I wedi ymrwymo i'r cynllun trwy roi cyfrifoldeb cydlynu i Gyfarwyddwr Manwerthu NS&I.

Mae rheolwyr a staff y busnes drwyddo draw yn gyfrifol am weithredu'r mesurau perthnasol a gynhwysir yn y cynllun hwn o ddydd i ddydd. Ymgynghorir â nhw pan fydd newid i'r cynllun yn ymwneud â'u maes.

Rhoddir cyhoeddusrwydd i'r cynllun ymhlith ein staff a'r cyhoedd yng Nghymru. Caiff ei gyhoeddi mewn man amlwg ar ein mewnwrwyd a'n gwefan.

Bydd y cynllun yn cael ei hyrwyddo'n rheolaidd yn fewnol trwy gyflwyniadau anffurfiol. Rhoddir gwybod am unrhyw ddatblygiadau i'r cynllun neu bwyntiau diddordeb trwy ein mewnwrwyd staff yn rhan o broses adolygu flynyddol.

Byddwn yn trefnu sesiynau briffio a hyfforddi i'n staff i gynyddu ymwybyddiaeth o'r cynllun hwn ac esbonio sut y bydd yn effeithio ar eu gwaith o ddydd i ddydd.

Byddwn yn cynhyrchu'r arweiniad ysgrifenedig canlynol i staff a phartneriaid lle y bo'n berthnasol ac fel y bo angen:

- Canllaw ynglŷn â Chynllun Iaith Gymraeg NS&I
- Mapiau proses
- Gweithdrefnau staff perthnasol

Bydd prosiectau newydd yn cael eu cofrestru â'n cyfarwyddiaeth Cyflenwi Busnes a Thrawsnewid, a fydd yn sicrhau bod goblygiadau'r Cynllun Iaith Gymraeg yn cael eu hystyried ar gyfer unrhyw brosiect newydd. Bydd hyn yn cynnwys ac yn dilyn ein proses Adolygu'r Effaith ar Gwsmeriaid.

Mae gan gwmnïau cyfieithu rôl bwysig wrth gefnogi ymrwymiad NS&I i'r cynllun. Mae'n hanfodol bod y cwmnïau sydd dan gontract yn darparu gwasanaeth o ansawdd uchel. Bydd NS&I yn monitro ansawdd cyfieithiadau ac yn cynnal archwiliadau'n rheolaidd.

Bydd unrhyw fath o gyswllt â'r cyhoedd yng Nghymru, nad yw'r cynllun hwn yn ymdrin ag ef yn benodol, yn cael ei gynnal mewn modd sy'n gyson â'r egwyddorion cyffredinol a gynhwysir yn y cynllun hwn.

Monitro

Yn unol â'i drefniadau cytundebol, mae NS&I yn cynnal ymarferion sicrwydd a goruchwyllo rheolaidd o'i ddarparwyr sydd ar gontract allanol. Mae hyn yn cynnwys adolygiad sicrwydd blynyddol o ddarparu'r gwasanaeth Cymraeg, a rennir yn flynyddol gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

Yn ogystal, cynhelir fforymau wythnosol a misol rhwng NS&I a'i ddarparwyr sydd ar gontract allanol lle y gellir trafod unrhyw elfen weithredol ar y gwasanaeth Cymraeg.

Mae ceisiadau gan gwsmeriaid yn cael eu monitro'n ddyddiol hefyd i sicrhau y bodlonir y lefelau gwasanaeth gofynnol i unrhyw gwsmeriaid sy'n dymuno delio â ni yn Gymraeg (o fewn cwrmpas y cynllun).

Adolygu a diwygio'r cynllun

Mae'n bosibl y bydd angen i ni adolygu'r cynllun hwn, neu gynnig diwygiadau iddo, o bryd i'w gilydd oherwydd newidiadau i'n swyddogaethau, neu i'r amgylchiadau yr ymgwymerwn â'r swyddogaethau hynny ynddynt, neu am unrhyw reswm arall.

Ni fydd unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud i'r cynllun hwn heb gymeradwyaeth Comisiynydd y Gymraeg.

Cwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwella

Dylai cwynion yn ymwneud â'r cynllun hwn, neu awgrymiadau ar gyfer gwella, gael eu cyfeirio at:

Y Cyfarwyddwr Manwerthu

NS&I

Riverside House

2a Southwark Bridge Road

Llundain

SE1 9HA

Cwynion am wasanaethau NS&I – sut gallwn eu hunioni

Os byddwn yn gwneud camgymeriad, ceisiwn unioni pethau'n gyflym. Os oes gennych gŵyn, mae gennym weithdrefn i'w datrys yn deg. Rydym yn dod o dan gylch gwaith y Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol, hefyd.

Y Gymraeg

Cysylltu a chymorth



Ewch i'n gwefan yn nsandi.com/hafan



Ffoniwch ni ar **08085 007 007**

Rydym ni yma yn y Deyrnas Unedig bob dydd, heblaw am wyliau banc. Mae galwadau o'r Deyrnas Unedig am ddim. Gallai eich galwad gael ei recordio i'n helpu i roi'r gwasanaeth gorau i chi.



Anfonwch neges atom @nsandihelp



Ysgrifennwch atom yn **NS&I, Sunderland SR43 2SB**

A oes angen fformat gwahanol arnoch?

Gofynnwch i ni am gael fersiwn:

- Braille
- Tâp sain
- Cryno ddisg
- Print bras

A ydych chi'n drwm eich clyw neu ag amhariad lleferydd?

Gallwch gysylltu â ni trwy'r Gwasanaeth Cyfnewid Testun: deialwch **18001** trwy'ch ffôn testun ac yna rhwch ein prif rif ffôn.